



GRŴP COLEGAU  
**NPTC**  
GROUP OF COLLEGES

# Siarter Myfyrwyr Addysg Uwch



# Siarter Myfyrwyr Addysg Uwch Grŵp Colegau NPTC

Mae Grŵp NPTC wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd dysgu o safon uchel i unigolion sy'n dymuno dilyn rhaglen Addysg Uwch. Mae'r Coleg yn cydnabod bod gan staff a myfyrwyr hawliau a chyfrifoldebau sy'n helpu i bennu gallu'r Coleg i gynnal a gwella'i swyddogaeth hanfodol o addysgu a dysgu ar draws yr holl raglenni addysg bellach ac uwch.

Mae'r Coleg wedi creu'r Siarter Myfyrwyr hwn i annog ymrwymiad bob aelod o staff a phob myfyriwr i egwyddor partneriaeth ac i egluro sail y bartneriaeth honno.

## Ar bob adeg:

### Bydd y Coleg yn:

- + Brydlon, yn effeithlon ac yn gwrtais wrth ymdrin â chi
- + Trin pawb yn gyfartal heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, hil, cred grefyddol a heb gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol
- + Defnyddio'r un meini prawf academiaidd ar gyfer pobl ag anableddau ag ar gyfer unrhyw ymgeisydd a myfyriwr arall, a bydd yn ceisio cynnig cyfle cyfartal drwy weithio tuag at amgylchedd cefnogol a hygyrch
- + Ceisio darparu awyrgylch sy'n cefnogi dysgu ac sy'n rhydd rhag aflonyddu a chamwahaniaethu
- + Eich trin chi fel partner mewn proses hunanddatblygiad gydol oes ac yn eich galluogi chi i barhau â'ch cysylltiad â'r Coleg ar ôl i chi adael
- + Cymryd pob cam rhesymol i ddarparu amgylchedd saff, diogel ac iach ac un lle caiff ynni ac adnoddau eraill eu harbed
- + Diogelu'r holl wybodaeth bersonol yr

ydych yn ei rhoi a chydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.

### Fel myfyriwr dylech chi:

- + Fod yn brydlon, effeithlon a chwrtais wrth ymdrin â'r Coleg, ei staff a'ch cyd fyfyrwyr
- + Helpu i greu a chynnal awyrgylch sy'n cefnogi dysgu ac amgylchedd sy'n annog triniaeth gydradd
- + Rhoi gwybod i'r Coleg ar y cyfle cyntaf am unrhyw anabledd sydd gennych a all effeithio ar eich cyfleoedd fel myfyriwr
- + Manteisio i'r eithaf ar eich cyfleoedd ar gyfer hunanddatblygiad
- + Defnyddio cyfleusterau ac adnoddau'r Coleg, boed hynny mewn adrannau neu'n ganolog, gan barchu a bod yn ystyriol o'r holl ddefnyddwyr eraill
- + Cymryd cyfrifoldeb personol am hybu amgylchedd saff, diogel ac iach a chynaliadwyedd adnoddau
- + Cydymffurfio â thelerau holl reoliadau'r Coleg a gofynion holl Godau Ymarfer y Coleg neu ddogfennau tebyg sydd ar gael ar wefan y Coleg
- + Sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i'r Coleg am unrhyw euogfarnau

- troseddol sydd gennych neu y gallech eu derbyn
- + Sicrhau eich bod yn dweud wrth y Coleg am unrhyw newid i fanylion personol megis cyfeiriad neu rifau cyswllt
- + Ystyried cadw eich cysylltiad â'r Coleg ar ôl i chi adael.

## Cyn i chi gyrraedd...

### Bydd y Coleg yn:

- + Darparu gwybodaeth gywir am ei raglenni astudio a hyfforddiant ymchwilio a'u costau mewn modd digon manwl i'ch galluogi i wneud dewis doeth
- + Esbonio'r meini prawf, y gweithdrefnau a'r amserlen ar gyfer y broses ddethol
- + Rhoi gwybodaeth gywir a defnyddiol am ffynonellau arian i fyfyrwyr a'r cymorth sydd ar gael i'r rhai hynny ag anghenion arbennig
- + Rhoi gwybod i chi am y cyfleusterau a'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Coleg.

## Fel ymgeisydd dylech chi:

- + Wneud pob ymdrech i sicrhau bod gennych yr wybodaeth i allu gwneud dewis doeth o ran y rhaglen
- + Gwneud unrhyw waith darllen rhagarweiniol neu unrhyw baratoi academiaidd arall y mae eich tiwtoriaid AU wedi gofyn i chi ei wneud
- + Dechrau'r broses o drefnu cymorth ariannol, llety ac unrhyw gymorth arall sydd ei angen arnoch cyn gynted ag y bo modd
- + Sicrhau eich bod yn gwneud trefniadau â'r Coleg i dalu eich ffioedd, naill ai eich hun neu drwy drydydd parti (e.e. y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr neu noddwr)

- + Sicrhau eich bod yn manteisio ar gyfleoedd i gael Lwfans Myfyrwyr Anabl.

## Pan fyddwch chi'n dechrau ar eich rhaglen astudio ac ar adegau allweddol yn ystod y rhaglen...

### Bydd y Coleg yn:

Rhoi gwybodaeth eglur ac amserol yn ysgrifenedig/drwy'r we am:

- + Nodau ac amcanion ehangach y rhaglen yr ydych wedi cofrestru ar ei chyfer, dewisiadau'r modylau a'r unedau sydd ar gael, dulliau asesu'r rhaglen yn gyffredinol a'r meini prawf a gaiff eu defnyddio
- + Nodau ac amcanion pob modiwl unigol neu uned astudio debyg a'r hyn y dylech chi allu ei gyflawni erbyn ei diwedd
- + Y dulliau o asesu'r modiwl neu'r uned a'r meini prawf a gaiff eu defnyddio
- + Y dulliau dysgu ac addysgu a gaiff eu defnyddio a sut y caiff eich sgiliau trosglwyddadwy eu datblygu a'u hasesu, e.e. gweithio gydag eraill a rhoi cyflwyniadau llafar
- + Y gwasanaethau cyfrifiadurow, llyfrgell ac academiaidd eraill sydd ar gael a lefelau'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt
- + Y Gwasanaeth Gyrfaoedd a'r wybodaeth a'r arweiniad sydd ar gael i chi
- + Unrhyw gydnabyddiaeth broffesiynol sydd ar gael ar ôl cwblhau unrhyw raglen astudio benodol
- + Nodi'r aelodau staff sy'n gyfrifol am fodylau neu unedau unigol ac am raglenni astudio yn gyffredinol neu sy'n ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n berthnasol i chi ac esbonio sut y gellir cysylltu â nhw

- + Esbonio'r dulliau o ofyn i chi am eich barn ar foddlau neu unedau unigol, am raglenni astudio yn gyffredinol ac agweddau eraill ar eich profiad – yn unigol ac yn gorfforaethol drwy gynrychiolwyr ar bwyllgorau – a sut y caiff yr wybodaeth am yr ymatebion i'r farn honno yn cael ei hadrodd yn ôl i chi
- + Disgrifio sut y byddwch yn cael gwybodaeth systematig am eich cynnydd unigol, am eich cryfderau a'ch gwendidau, ac am sut y gallwch wella eich perfformiad.

### **Fel myfyriwr dylech chi:**

- + Sicrhau eich bod yn darllen ac yn cadw'r wybodaeth a roddir, edrych am negeseuon e-bost yn rheolaidd ac ar hysbysfyrddau perthnasol a gofyn am eglurhad am unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall
- + Mynd i bob darlith, seminar, tiwtorial, dosbarthiadau labordy a sesiynau addysgu eraill, oni bai y nodir yn benodol eu bod yn ddewisol
- + Cwblhau'r gwaith academiaidd y gofynnir i chi ei gwblhau yn brydlon, yn enwedig pan ei fod yn cyfrannu at eich asesiad ffurfiol, a mynd i bob arholiad
- + Bod yn fodlon arbrosi â gwahanol ffyrdd o addysgu, dysgu ac asesu a chymryd cyfrifoldeb ar y cyd â'r Coleg am ddatblygu eich gallu fel myfyriwr annibynnol
- + Cymryd rhan lawn ac adeiladol yn y cyfleoedd a ddarperir ar eich cyfer i fynegi eich barn ar y modylau neu'r unedau yr ydych yn eu hastudio ac ar eich profiad addysgol yn fwy cyffredinol er mwyn gallu gwella'r ddarpariaeth i chi a'r rhai sy'n dod ar eich ôl chi

- + Sicrhau nad yw unrhyw gyflogaeth â thâl yr ydych yn ei chyflawni yn ystod y tymor academiaidd yn effeithio ar eich astudiaethau ac os ydych yn fyfyrwr nodedig HTS Haen 4, eich bod yn cadw at amodau eich Visa o ran oriau gweithio cyfyngedig.

### **I'ch cefnogi yn ystod eich cyfnod astudio...**

#### **Bydd y Coleg yn:**

Darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth personol ei hun, neu mewn cydweithrediad â phrifysgolion a cholegau partner, gan gynnwys gwasanaethau yn y meysydd canlynol:

- + cymorth tiwtor personol
- + gyrfaoedd a chyflogadwyedd
- + iechyd
- + cymorth ar gyfer myfyriwr anabl
- + lles a ffynonellau cyngor ariannol personol
- + cwnsela
- + arlwy
- + gofal plant
- + cymorth ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, gan gynnwys:
  - datblygu sgiliau Saesneg uwch
  - cyfleusterau hamdden
  - digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol
  - darparu gwybodaeth am sut i gael gafael ar wasanaethau mwy arbenigol a allai fod yn cael eu darparu yn y gymuned leol neu gan gyff cenedlaethol.

### **Fel myfyriwr dylech chi:**

- + Gymryd cyfrifoldeb am chwilio am y cymorth yr ydych yn credu y mae ei angen arnoch
- + Ystyried o ddirif unrhyw gyngor yn dweud y byddai chwilio am fathau

penodol o gymorth yn fanteisiol i chi.

## Er mwyn eich cynnwys chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi...

Bydd y Coleg yn:

- + Darparu cynrychiolaeth i fyfyrwyr ar lefel rhaglen neu ysgol
- + Darparu adborth ar ganlyniadau sylwadau a wnaed gan fyfyrwyr
- + Darparu cyngor a hyfforddiant i'r rhai hynny sy'n gynrychiolwyr myfyrwyr.

## Fel myfyriwr dylech chi:

- + Ddarparu gwybodaeth a barn i'r myfyrwyr sy'n eich cynrychioli, a'u hannog a'u cefnogi
- + Ystyried pa un a ddylech chi ymgeisio i gael eich ethol fel cynrychiolydd myfyrwyr
- + Cyflwyno safbwyntiau eich cyd-fyfyrwyr yn deg ac yn adeiladol os ydych yn gynrychiolydd myfyrwyr.

## Os aiff pethau o chwith...

Bydd y Coleg yn:

- + Hybu dulliau effeithiol o ddatrys y mwyafrif o anawsterau ar lefel yr adran academiaidd neu'r gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r broblem sydd wedi codi a darparu gweithdrefn glir a theg ar gyfer cwynion ffurfiol pan nad yw problemau o'r fath wedi'u datrys
- + Darparu cyngor ar oblygiadau gofyn am ganiatâd i newid rhaglen, atal eich astudiaethau neu adael y Coleg
- + Esbonio sut y gwneir penderfyniadau ynglŷn â myfyrwyr sy'n gwneud cynnydd academiaidd anfoddfaol a rhan y myfyriwr yn y gweithdrefnau hynny
- + Cynnal gweithdrefn apelïadau academiaidd eglur a theg

+ Cynnal gweithdrefn disgyblu myfyrwyr eglur a theg.

## Fel myfyriwr dylech chi:

- + Fel rheol, dechrau ymdrin ag unrhyw gŵyn a allai fod gennych drwy siarad â'r unigolyn neu'r unigolion dan sylw ac wedyn, os oes angen, â'r sawl sy'n gyfrifol am y maes dan sylw
- + Gofyn am gyngor ar unwaith pan fo eich cynnydd academiaidd yn peri pryder i chi neu'r staff sy'n eich addysgu, neu os ydych yn meddwl yr hoffech newid eich rhaglen, atal eich astudiaethau neu adael y Coleg.



Mae'r Coleg yn tanysgrifio i NUS Cymru ac mae ganddo Undeb y Myfyrwyr gweithredol.

Dylid dilyn y Weithdrefn Gwyno ar gyfer unrhyw gwynion sydd gan ymgeiswyr neu fyfyrwyr ynglŷn â rhoi'r Siarter Myfyrwyr hwn ar waith. Mae'r weithdrefn hon ar gael ar fewnwyd y myfyrwyr.

Mae'r Siarter Myfyrwyr ar waith er mwyn sicrhau bod pob myfyriwr Addysg Uwch yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal wrth astudio yng Ngrŵp Colegau NPTC.

## Monitro ac Adolygu

Adolygir y siarter hwn bob gwanwyn gan y Pennaeth Cynorthwyol Addysg Uwch a'r Grŵp Cynrychioli Myfyrwyr i'w gyhoeddi ym mis Awst bob blwyddyn.